

Cofnodion y Bwrdd wedi'u cadarnhau

Teitl y Cyfarfod: Fforwm Rheoli Tir Cymru

Lleoliad: Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth

Dyddiad y Cyfarfod: 6 Chwefror 2019

Yn bresennol:

Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru)

Hedd Pugh (NFU Cymru)

Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)

Tudur Parry (UAC)

Bernard Griffiths (Swyddog Polisi Defnydd Tir UAC)

Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

Anthony Geddes (Confor)

Tim Kirk (Confor)

Sian Thomas (CFfl)

Bob Vaughan (Rheolwr Coedwigoedd a Ffermio Tir Cynaliadwy, CNC)

Martyn Evans (Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru, CNC)

Meinir Wigley (Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau, CNC)

Helen Haider (CNC)

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:

Chris Blake, CNC (Aelod o'r Bwrdd, eitemau 5-9 yn unig)

Russell De'Ath, CNC (eitem 2 yn unig)

Nichola Taylor, CNC (eitem 2 yn unig)

David Arnott, Prifysgol Bangor

Ysgrifenyddiaeth: Helen Haider (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

Ymddiheuriadau:

Ruth Jenkins (Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol)

Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol CNC ar gyfer Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)

Brian Pawson (Uwch-gynghorydd Amaeth)

Eitem 1 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1. Agorodd Zoe Henderson y cyfarfod trwy groesawu Sian Thomas (CFfl) i'r fforwm. Llongyfarchwyd Anthony Geddes ar ei rôl newydd gyda Confor. Croesawyd Tudur Parry, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Tir UAC, i'w gyfarfod cyntaf o'r fforwm.
2. Croesawyd David Arnott, myfyriwr PhD o Brifysgol Bangor, hefyd i'r cyfarfod. Nodwyd bod David yn ei flwyddyn olaf yn astudio doethuriaeth a ariennir trwy'r prosiect FLEXIS, a'i fod yn ymchwilio i systemau ynni adnewyddadwy ac effaith newid polisi a chyllidebau carbon ar Gymru. Trwy fod yn bresennol yn y cyfarfod, nod David oedd dod i adnabod y rhanddeiliaid perthnasol a deall eu gweledigaethau o ran newid defnydd tir.
3. Croesawyd Russell De'Ath (CNC) a Nichola Taylor (CNC) i'r fforwm ar gyfer y drafodaeth ynghylch y Datganiadau Ardal.

Eitem 2 Cyflwyniad a thrafodaeth ynghylch y datganiadau ardal

4. Rhoddodd staff CNC gyflwyniad i'r Datganiadau Ardal, ac aethpwyd ati i esbonio'r modd y mae gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cyd-fynd â nhw, gan gynnig goruchwyliaeth strategol bosibl o'r prosesau a fydd yn cyfeirio camau gweithredu dilynol ar lawr gwlad. Rhoddwyd enghraifft o waith carthffosiaeth a oedd yn trin ffosffadau elifion, a hynny am gost sylweddol, tra byddai lleihau faint o ffosffadau a fyddai'n mynd i mewn i'r system yn golygu na fyddent yn cael eu rhyddhau i'r system garthffosiaeth yn y lle cyntaf.
5. Nodwyd y gallai rôl Fforwm Rheoli Tir Cymru gymryd golwg ar y 'darlun ehangach' — gan ddatrys yr heriau y byddem yn eu hwynebu, cyn symud ymlaen i lunio atebion i gynorthwyo'r broses o ddatblygu cynlluniau ardal.
6. Yna, rhoddodd Russell De'Ath gyflwyniad i'r Datganiadau Ardal, y mae disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi yr adeg hon y flwyddyn nesaf. Nodwyd bod gwaith sylweddol yn cael ei wneud i ystyried themâu sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â datblygu'r rhain yn lleol, gan gasglu'r dystiolaeth gyfredol ar adnoddau naturiol a'r ecosystemau eu hunain. Bydd angen mewnbwn sylweddol gan randdeiliad ar gyfer proses y Datganiadau Ardal, gan gynnwys datblygu rhwydweithiau, polisiau a chyfleoedd addas, yn enwedig yn sgil Brexit.
7. Nodwyd bod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi sefydlu ffordd newydd o edrych ar reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy (SMNR), ynghyd â rhoi rôl allweddol i CNC yn y gwaith o ddatblygu Datganiadau Ardal. Ychwanegwyd bod y gwaith hwn yn

cyd-fynd â Pholisi Adnoddau Cenedlaethol (NRP) Llywodraeth Cymru. Dywedwyd bod CNC yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru (LIC) i feithrin blaenoriaethau cenedlaethol yn rhan o'r NRP. Bydd saith Datganiad Ardal yn cael eu llunio ar gyfer Cymru (chwech daearol ac un morol). Nodwyd bod y Cynlluniau Llesiant, a luniwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, hefyd yn gosod amcanion clir ar gyfer pob lleoliad i gyflawni nodau llesiant yng Nghymru.

8. Yn y Datganiadau Ardal, nodwyd bod y themâu sy'n dod i'r amlwg yn seiliedig ar heriau cenedlaethol, ond bod angen gwell dealltwriaeth o'r materion ar lawr gwlad. Dywedwyd bod mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth ac anghydraddoldebau iechyd yn ddwy enghraifft o'r themâu hyn sy'n dod i'r amlwg. Lluniwyd y themâu hyn yn dilyn trafodaethau ar lefel leol ac mewn cyfarfodydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar hyn o bryd, nodwyd nad oedd sefydliadau ffermio yn cael eu cynrychioli ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er bod aelodaeth o'r rhain yn amrywio ledled Cymru. Awgrymodd aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru fod angen ehangu ar aelodaeth y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnwys cynrychiolaeth gan reolwyr tir, er y byddai'n anodd i'r sefydliadau cynrychiadol sicrhau presenoldeb ymhob un o'r saith grŵp. Fel arall, dywedwyd y gallai Fforwm Rheoli Tir Cymru ddarparu mecanwaith i gasglu safbwyntiau ac adrodd amdanynt wrth y Bwrdd i sicrhau y cwmpasir yr agweddau ar reoli tir mewn modd digonol. Ar hyn o bryd, nodwyd bod ffermwyr yn rheoli tua 80% o'r tir yng Nghymru, gydag 13% pellach yn cael ei reoli gan goedwigwyr.

PG01: Archwilio a yw'n bosibl naill ai ehangu ar aelodaeth y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnwys cynrychiolaeth o'r sectorau ffermio a choedwigaeth, neu nodi'r rôl y gall Fforwm Rheoli Tir Cymru ei chyflawni wrth ddarparu mecanwaith i gwmpasu agweddau ar reoli tir (Martyn Evans, CNC)

9. Gofynnwyd i CNC nodi'r cyfleoedd a'r rhwystrau i ymgorffori'r rhaglen SMNR. Nodwyd bod yr effaith o ran diwygio rheoli tir ar ôl Brexit yn rhwystr posibl i berswadio rheolwyr tir i ymgysylltu, gan nad ydynt yn gwybod beth fydd yn digwydd pan na fydd y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn berthnasol mwyach. Ychwanegwyd bod yna lawer o nodweddion anhysbys o ran y rhaglen rheoli tir yn y dyfodol, ond bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio proses Brexit a'n Tir i gyfleu gweledigaeth glir o'i disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Dywedodd Confor eu bod yn aneglur o ran sut y gallent gyfrannu at y broses Datganiadau Ardal tra bo problemau yn parhau mewn perthynas â'r gwaith cynllunio coedwigaeth a oedd yn peri rhwystrau i greu coetiroedd newydd.
10. Disgrifiodd Russell De'Ath y gwaith a oedd wedi cael ei wneud i fapio cyfleoedd tebyg i greu mannau gwyrdd a choetiroedd, ac ati. Rhoddwyd enghraifft o'r modd y gallai'r rhain helpu i wella llesiant, ynghyd â'r setiau data y gellid eu defnyddio i nodi cyfleoedd. Cyn i'r gwaith mapio gael ei wneud, aethpwyd ati i ddatblygu cadwyni rhesymeg a gâi eu defnyddio i benderfynu ar ba ddata y gellid eu mapio i roi'r agosrwydd gorau ynghylch a oedd yr amodau'n debygol neu'n annhebygol. Er enghraifft, wrth ystyried y potensial i hidlo dŵr trwy briddoedd a llystyfiant, gellir gwneud rhagdybiaethau rhesymegol mai'r mwyaf garw yw'r llystyfiant y mwyaf tebygol yw'r dŵr o ymdreiddio. Gellir ychwanegu ffactorau eraill wedyn, er enghraifft goleddf a glawiad.
11. Ychwanegwyd at y mapiau a oedd yn dangos lleoliad y coetiroedd presennol gydag arwydd o le y mae cyfleoedd posibl ar gael i ddatblygu coetiroedd newydd. Nid oedd y mapiau hyn yn arddangos yr hyn a oedd yn digwydd go iawn ar lawr gwlad, ac nid oeddent chwaith yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau, ond nodwyd eu bod yn

ddefnyddiol fel ffordd o ddechrau sgysiau ag eraill. Ychwanegwyd nad oedd gan CNC fynediad at y data sydd y tu ôl i'r mapiau hyn ac nad oedd y goblygiadau o ran y costau o ddefnyddio'r cyfleoedd a nodwyd yn cael eu hystyried.

12. Soniwyd bod Prifysgol Exeter wedi datblygu offeryn mapio (Prisio a Gwerthuso Naturiol Ar-lein neu NEVO) i lywio penderfyniadau a allai effeithio ar amgylchedd naturiol Cymru a Lloegr. Nodwyd nad oedd gan y mapiau cyfleoedd, a ddatblygir yn rhan o'r broses datganiadau ardal, unrhyw statws statudol, a'u bwriad yw bod yn offeryn cynghori yn hytrach na chyfyngiad. Amlygwyd pwysigrwydd datblygu mapiau lleol mewn modd a fydd yn lleihau'r risg o unrhyw droeon annisgwyl, ynghyd â'r angen i oresgyn materion eraill mewn perthynas â'r broses plannu coed.
13. Gofynnwyd a fyddai pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, mynyddig yn gallu elwa ar ragor o fuddion iechyd ac a ddylai'r mapiau ganolbwyntio mwy ar ardaloedd trefol. Rhoddwyd enghraifft o Abertawe a Chastell-nedd/Port Talbot, a'r cyfleoedd posibl i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, dirywiad bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac ansawdd aer, ynghyd â gwella rheolaeth tir gwledig. Yng Nghilfach Tywyn, nodwyd bod yna gyfleoedd i ymgysylltu â pherchnogion tir lleol yn rhan o ddull nwyddau cyhoeddus a fydd yn sicrhau buddion i'r safleoedd dynodedig Ewropeaidd a physgota masnachol, fel ei gilydd, a hynny trwy reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mewn cyferbyniad, nodwyd bod CNC yn rheoli 60-70% o'r tir yng Nghastell-nedd Port Talbot ar ran Llywodraeth Cymru, felly yn yr achos hwn, mater i'r sector statudol yw bachu ar y cyfleoedd.
14. Cafwyd trafodaeth ynghylch y rhwystrau i fuddsoddi. Dywedwyd bod rheoli coetiroedd wedi bod yn broffidiol yn y gorffennol, ond nad yw'r cyfraddau ailstocio yn cael eu cynnal. Amlygodd Dennis Matheson nad yw'n bosibl bob amser i ffermwyr tenant (sy'n gyfrifol am 27% o'r tir amaethyddol yng Nghymru ar hyn o bryd) wneud unrhyw newidiadau heb ofyn am ganiatâd gan y landlord. Nodwyd bod CNC wedi codi'r mater yn ymwneud â ffermwyr tenant gyda LIC, a hynny mewn ymgais i sicrhau bod y sbardunwyr polisi yn cael eu mabwysiadu ymhob man er mwyn cyflawni'r canlyniadau y mae ar LIC eisiau eu gweld. Pwysleisiodd aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru yr angen i sicrhau dull gweithredu teg mewn perthynas â gwaith y Datganiadau Ardal. Nodwyd, yn benodol, fod angen i gynhyrchu bwyd fod yn rhan o'r dull gweithredu, neu fe allai hynny fod yn rhwystri i gyflawni'r buddion a ddymunir.
15. Awgrymwyd y dylid datblygu Cynllun Ymgysylltu ar gyfer Ardaloedd er mwyn ennyn cyfranogiad parhaus, gyda rheolwyr tir yn cael eu hystyried yn bartneriaid a allai sicrhau'r ymrwymiad angenrheidiol. Cadarnhawyd bod cynlluniau cyfathrebu cenedlaethol yn cael eu hystyried, yn ogystal â chynlluniau cyfathrebu lleol.
16. Dywedwyd nad oedd unrhyw dargedau lleol penodol ar gyfer Datganiadau Ardal wedi cael eu gosod eto, dim ond targedau lefel uwch, er enghraifft 'lleihau dirywiad bioamrywiaeth'. Bydd y targedau a osodir yn cynnwys targedau ar gyfer ansawdd dŵr, ansawdd aer, coetiroedd a'r cyflwr SoDdGA a ffefrir. O ganlyniad, trafododd aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru y ffordd orau o fesur llwyddiant y broses Datganiadau Ardal. Awgrymwyd y dylid cynnwys perchnogion tir mewn Fforwm Cyflenwi Partneriaeth (PDF) ar wahân, gyda phob aelod o'r PDF yn ymgysylltu â'u sianeli sefydliadol eu hunain wedi hynny. Amlygwyd hefyd yr angen i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y broses Datganiadau Ardal. Nododd cynrychiolwyr Confor eu bod yn teimlo y gellid bod wedi sicrhau llwyddiant pe bai'r aelodau wedi amlygu cyffro ynghylch y cyfleoedd a

gyflwynwyd, yn hytrach na phryder ynghylch y broses. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i ddefnyddio iaith glir ac anfygythiol ymhob agwedd ar y gwaith cyfathrebu.

PG02: Datblygu Cynllun Ymgysylltu â'r Datganiadau Ardal a sefydlu gweithgor cyn pen mis (Bob Vaughan a Russell De'Ath, CNC)

Eitem 3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2018, ac unrhyw faterion sy'n codi

17. Nodwyd bod astudiaeth yn cael ei chynnal ar hyn o bryd gan Brifysgol Exeter, gyda mewnbwn gan Roisin Campbell-Palmer (arbenigwr ar afancod o'r Alban). Pwysleisiodd staff CNC y byddent yn croesawu unrhyw wybodaeth a allai fod gan aelodau o Fforwm Rheoli Tir Cymru ynghylch achosion o weld afancod.

PG03: Rhoi gwybod i CNC am unrhyw achosion lle gwelwyd afancod (Pawb)

PG04: Rhoi diweddariad ar y prosiect afancod yn ystod cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru (Bob Vaughan, CNC)

PG05: Cyfieithu cofnodion cyfarfod mis Hydref o Fforwm Rheoli Tir Cymru, a'u lanlwytho i'r dudalen lanio ar wefan CNC (Helen Haider, CNC)

PG06: Egluro a wnaed unrhyw gynnydd oddi ar y cyfarfod diwethaf mewn perthynas â PG16, sef: Gwirio a fydd yr Undebau Ffermio yn cael eu gwahodd i ymuno â'r gweithgor ar ffermio dwys a alwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru (Brian Pawson ac Alison Soper)

Eitem 4 Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth

18. Cadarnhawyd bod cofnodion ac agendâu cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru bellach yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC.

Eitem 5 Diweddariad CNC

19. **Cynllun y Sefydliad:** Nodwyd bod CNC yn ymgymryd â phroses o baru staff â rolau yn y strwythurau newydd arfaethedig ar hyn o bryd. Dywedwyd bod paru cystadleuol yn fwy o broblem o fewn Gweithrediadau oherwydd yr angen i ailstrwythuro ledled y chwe maes newydd. Erbyn mis Ebrill, bydd oddeutu 1,400-1,500 o blith cyfanswm o 1,800 o staff CNC yn eu rolau newydd. Rhagwelir y bydd tua 300 o rolau yn parhau i fod heb eu llenwi ar y cam hwn, felly bydd unrhyw staff na fydd ganddynt swyddi yn gallu ymgeisio am y rhain. Nodwyd bod hwn yn gyfnod cythryblus i staff a allai fod yn ansicr ynghylch eu rolau yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd strwythurau newydd CNC yn arwain at greu sefydliad mwy effeithiol, effeithlon ac ystwyth a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu SMNR ledled Cymru, ac a fydd yn fwy abl i fynd i'r afael â'r heriau a fydd yn debygol o godi yn ystod y blynyddoedd i ddod. Dywedwyd bod adran goedwigaeth CNC yn cael ei rhannu'n chwe ardal a bod camau gweithredu hwy yn perthyn i'r broses hon. Bydd y rheolwyr ar gyfer y rhan hon o'r busnes yn eu swyddi erbyn canol mis Chwefror. Bydd rhannu'r gwaith cynaeafu coedwigaeth yn chwe ardal leol yn helpu i symleiddio'r

prosesau ac yn integreiddio'r gweithgarwch coedwigaeth ymhellach i weddill CNC. Bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau y gall y staff coedwigaeth ganolbwyntio eu harbenigedd ar y chwe ardal leol.

PG07: Rhannu manylion cyswllt rheolwyr coedwigaeth allweddol CNC â holl aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Martyn Evans, CNC)

20. **Diweddariad gan y Fforwm Dŵr:** Cyfarfu Fforwm Rheoli Dŵr Cymru am y tro cyntaf ar 5 Rhagfyr 2018, a chadeiriwyd y cyfarfod gan Ruth Jenkins ar ran CNC. Nodwyd bod y dull yn seiliedig ar Fforwm Rheoli Tir Cymru, er bod Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn disodli'r hen Baneli Cyswllt ar gyfer Basn Afonydd. Ychwanegwyd bod y grwpio newydd yn mynd i'r afael â materion ehangach hefyd.

Bydd cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn cael ei gynnal ar 9 Ebrill, a nodwyd bod y fforwm yn chwilio am gynrychiolydd a all fod yn gyswllt ar gyfer Fforwm Rheoli Tir Cymru. Roedd y cyfarfod cychwynnol wedi canolbwyntio ar sefydlu'r Cylch Gorchwyl a'r cynnydd a oedd wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r Datganiadau Ardal. Nodwyd bod yna rywfaint o orgyffwrdd rhwng amcanion ac aelodaeth is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru mewn perthynas â llygredd amaethyddol, yn enwedig gan fod dalgylchoedd iach yn hanfodol i reoli'r amgylchedd dŵr. Mynegodd aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru bwysigrwydd meithrin gwell dealltwriaeth o fforymau'r rhanddeiliaid amrywiol sydd bellach yn gweithredu ledled Cymru. O ganlyniad, nodwyd bod CNC yn cymryd camau i fapio grwpiau sydd bellach yn bodoli.

PG08: Nodi cynrychiolydd sy'n mynychu Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru i fod yn gyswllt rhwng y ddau fforwm (Helen Haider, CNC)

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd CNC Ddosbarthiad Interim Cylch 2 y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr ar gyfer Dŵr Croyw. Nodwyd bod hyn yn galluogi CNC i adolygu cynnydd ar bwynt canol ail gylch y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr (2015-2021). O'i gymharu â data 2015, roedd yna gynnydd o 5% yn nifer y cyrff dŵr a oedd cwrdd â statws da neu well. Fodd bynnag, gellir priodoli sawl achos o gynnydd i newidiadau yn natur yr hyn a gafodd ei fonitro, amlder y monitro, newidiadau methodolegol eraill a throsglwyddo data. Nodwyd bod y Dosbarthiad Interim a chyfres o gwestiynau cyffredin ar gael yn allanol ar wefan Arsylwi Dyfroedd Cymru. Disgwylir y bydd y dosbarthiad morol interim yn cael ei gyhoeddi yn ystod gaeaf 2018.

Nodwyd bod y gwaith cynllunio ar gyfer Cylch 3 cynllunio basn afonydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cyflwynwyd y dull trosfwaol yn ymgynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd CNC, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 ac a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018. Yn rhan o'r broses ymgynghori, gofynnodd CNC am adborth ar y rhaglen waith, yr amserlen a'r broses o gydweithio. Nodwyd bod CNC bellach yn adolygu'r 25 ymateb a ddaeth i law. Diolchwyd i UAC am eu mewnbwn ar gyfer gwaith cynllunio'r trydydd cylch.

Cyflwynodd cwmnïau dŵr o Gymru gynlluniau i Ofwat i wneud buddsoddiadau sylweddol er mwyn mynd i'r afael â'u heffeithiau amgylcheddol yn ystod 2020-24. Roedd y rhain yn cynnwys gwelliannau i waith trin carthion er mwyn bodloni gofynion ansawdd dŵr; ymchwiliadau a mesurau i leihau gollyngiadau o orlifiadau carthffosydd cyfun; gwelliannau i dramwyfeydd pysgod ar hyd afonydd; ymchwiliadau i feithrin gwell dealltwriaeth o risg rhywogaethau estron goresgynnol, a newidiadau i'r llysoedd i lawr yr

afon o gronfeydd dŵr. Bob pum mlynedd, mae Ofwat yn gosod terfynau prisiau sy'n galluogi cwmnïau dŵr i ariannu'r broses o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid, a hynny'n unol â safonau a gofynion amgylcheddol perthnasol. Bydd adolygiad prisiau cyfredol Ofwat (PR19) yn dod i ben yn 2019.

PG09: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad adolygiad PR19 Ofwat i holl aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Bob Vaughan, CNC)

Nodwyd bod nifer o brosiectau eraill sy'n gysylltiedig â dŵr hefyd yn mynd rhagddynt, gan gynnwys y prosiect LIFE ar Afon Dyfrdwy. Dywedwyd bod CNC bellach yn aros am ganlyniadau'r cais llawn a gyflwynwyd i gronfa Ewropeaidd LIFE ym mis Ionawr 2019. Dylai'r canlyniad fod yn hysbys erbyn diwedd mis Chwefror. Adroddir bod y rhywogaethau a'r cynefinoedd ar gyfer ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, Bala, mewn cyflwr anffafriol oherwydd newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrologig (gan gynnwys coredau), llygredd gwasgareddig, rhywogaethau estron goresgynnol a newidiadau mewn amodau biotig. Nod y prosiect yw ailsefydlu ac adfer prosesau a nodweddion naturiol, ynghyd â chynefinoedd diriaethol.

Dywedwyd bod gwaith Cynllunio Rheoli Adnoddau Dŵr yn cael ei wneud i sicrhau bod y broses o dynnu dŵr yn cael ei rheoli mewn modd cynaliadwy. Ychwanegwyd bod LIC a CNC yn cynnal trafodaethau â chwmnïau dŵr ynghylch sut y dylai gwaith cynllunio adnoddau dŵr esblygu yng Nghymru, er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr dŵr eraill y tu hwnt i'r diwydiant dŵr. Yn 2018, arweiniodd y tywydd sych dros gyfnod hir at ganlyniadau difrifol o ran adnoddau dŵr, gan leihau lefelau dŵr daear a llif dŵr ffynnon, gan effeithio ar gyflenwadau dŵr preifat, pysgodfeydd a choedwigaeth. Nodwyd bod CNC bellach yn cynnal adolygiad 'gwersi a ddysgwyd' mewn perthynas ag ymateb y sefydliad i'r cyfnod o dywydd sych a fu yn ystod mis Gorffennaf 2018 hyd at fis Medi 2018. Dylai'r ymarfer hwn helpu i wella'r broses gynllunio a hyrwyddo gwell cydnerthedd yn y dyfodol. Mae CNC wedi bod yn rheoleiddio llif afonydd o gronfeydd dŵr mewn modd sy'n cynyddu llifoedd, yn lleihau tymheredd y dŵr, yn sicrhau bod cwmnïau dŵr yn dilyn eu cynlluniau sychder, ac yn ymgymryd â gwaith cydymffurfio â thrwyddedau tynnu dŵr er mwyn rhoi'r cyfyngiadau ar lifoedd ar waith.

Nodwyd bod CNC yn cyflwyno'r echdynyddion mwyaf eithriedig i'r system drwyddedu ar hyn o bryd. Dywedwyd bod nifer o eithriadau cyfredol ar waith (yn amrywio o gyflenwadau preifat o > 20m³ i fragdai), ond bod disgwyl i'r rhain ddod i ben yn 2020. Bydd hyn yn galluogi CNC i reoli adnoddau dŵr yn well, ynghyd â helpu i gydbwysu anghenion yr holl echdynyddion a'r amgylchedd. Dywedwyd bod angen rhoi gwybod i bobl am y newidiadau hyn, ynghyd â'u hysbysu ei bod yn ofynnol cael trwydded tynnu dŵr os ydynt yn cymryd > 20m³ o ddŵr y dydd.

PG10: Aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru i gyfleu'r neges am y newidiadau i'r broses trwyddedu tynnu dŵr trwy eu rhwydweithiau sefydliadol (Pawb)

21. **Adolygiad Saethu CNC:** Bydd y defnydd o ddrylliau ar dir LIC yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2019, ac ni fydd prydlesi sy'n bodoli'n barod yn cael eu hadnewyddu. Nodwyd bod pob deiliad prydles wedi cael gwybod am y newid hwn.
22. **Arolwg Cwsmeriaid CNC:** Dywedwyd bod CNC yn rheoli rhaglen waith sy'n ymgorffori un ar bymtheg o brosiectau ar wahân i wella eu dulliau cyfathrebu â chwsmeriaid mewnol ac allanol. Nodwyd bod y gwaith yn cynnwys gwelliannau i wefan CNC a

sicrhau bod safon gyson o wasanaeth i gwsmeriaid yn cael ei darparu. Ychwanegwyd bod fframwaith gwrando ar gwsmeriaid wedi cael ei sefydlu i brofi gwasanaethau, ac efallai y bydd gofyn i aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru gymryd rhan ynddo.

PG11: Rhannu dolen i strategaeth cwsmeriaid CNC ag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Meinir Wigley)

Eitem 6 Adborth gan Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru

23. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 14 Ionawr gyda chyfarfod arall wedi'i drefnu ar gyfer 11 Chwefror. Nodwyd bod y gwaith yn parhau mewn perthynas â'r pum thema allweddol a nodwyd yn Adroddiad Interim yr is-grŵp ar Lygredd Amaethyddol. Dywedwyd bod yr is-grŵp yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru (sy'n rhan o'r grŵp) ac wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad Brexit a'n Tir. Nodwyd bod Cynllun Gweithredu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar waith. Bydd hyn yn disgrifio'r modd y mae argymhellion yr Adroddiad Interim yn cael eu cyflwyno. Rhagwelir y bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2019.
24. Dywedwyd bod cais am arian ychwanegol i barhau â gwaith y grŵp bellach wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd bod yr aelodaeth wedi cael ei hymestyn i gynnwys Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL).
25. Ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y byddai rheoliadau amaethyddol newydd i reoli rheolaeth maetholion yn dod i rym ym mis Ionawr 2020. Nid oedd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad hwn, ond roedd wedi mynegi ei ddiddordeb mewn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu agweddau ar y rheoliadau newydd. Nodwyd bod natur y dirwedd reoleiddio yn un o'r pum thema allweddol yn adroddiad interim yr is-grŵp ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.
26. Nodwyd bod CNC wedi cyflogi wyth swyddog amaethyddol newydd i gynnal ymweliadau â ffermydd godro yng Nghymru. Dywedwyd bod eu contractau bellach wedi cael eu hymestyn tan fis Gorffennaf 2019, a bod ceisiadau wedi cael eu cyflwyno i LIC i'w hymestyn ymhellach. Bydd y data a gesglir o'r ymweliadau hyn yn rhoi cipolwg defnyddiol ar lefel y cydymffurfedd presennol â'r fframwaith rheoleiddio cyfredol. Nodwyd bod aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn gweithio gyda CNC i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu rolau cynghori ledled sefydliadau gwahanol a, thrwy hynny, yn cynyddu nifer y ffermydd y gellir ymweld â nhw. Y gobaith yw y gellir ymestyn contractau pob un o'r swyddogion amaethyddol ymhellach fel y gall pob fferm odro yng Nghymru gael o leiaf un ymweliad erbyn i'r prosiect ddod i ben.

Eitem 7 Brexit a'n Tir

27. Nodwyd y byddai'n annhebygol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i ganlyniad ymgynghoriad Brexit a'n Tir tan fis Gorffennaf 2019. Dywedwyd bod CNC wedi cyflwyno ymateb llawn i'r ymgynghoriad ac wedi sefydlu safbwynt polisi ar gynlluniau rheoli tir sydd bellach wedi cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru. Mynegodd aelodau

Fforwm Rheoli Tir Cymru bryder ynghylch yr angen i sicrhau bod rhywbeth ar waith i gefnogi ffermwyr pe bai Brexit caled yn dod i rym.

28. Dywedwyd bod CNC yn parhau i gefnogi NFU Cymru, UAC a Dŵr Cymru i ddatblygu dull gwirfoddol o reoli maetholion dan arweiniad ffermwyr. Y gobaith yw y gall hyn fod ar ffurf cynllun sicrwydd newydd, y bydd ei ofynion yn uwch na'r llawr rheoleiddio. Dylai cyfuniad o'r math hwn o ddull gwirfoddol a rheoleiddio sicrhau gwell canlyniad nag achos lle byddai'r naill neu'r llall yn cael eu defnyddio ar eu pennau eu hunain.
29. Nodwyd bod gan CNC ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd i baratoi a chyhoeddi Datganiadau Ardal, ac anelir at eu cyhoeddi erbyn dechrau 2020. Dywedwyd na fydd y newid i'r trefniant rheoli tir newydd ar ôl Brexit yn dechrau cyn 2020. Mynegodd aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru bryderon ynghylch y diffiniad o reolwyr tir ac a fyddai pobl nad ydynt yn ffermwyr bellach yn gallu manteisio ar gyllid o dan y cynllun newydd. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd y ffermwyr hynny sydd yn y chwarter isaf o ran perfformiad economaidd yn ei chael yn anodd parhau i weithredu yn y dyfodol, a hynny oherwydd y gostyngiad tebygol yn lefelau'r cyllid a fydd ar gael o dan y cynllun newydd.

Eitem 8 Rhaglen Creu Coetir CNC

30. Dywedwyd bod Rhaglen Creu Coetir CNC yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- Datblygu cynllun gweithredu CNC i wella'r gyfradd o greu coetiroedd newydd.
- Prosiect Plannu Coetir Newydd (i gymryd lle'r coetir a gollir trwy'r rhaglen cyflenwi ynni). Nodwyd bod prosiect caffael tir a phlannu coetir yn aros am gymeradwyaeth gan LIC.
- Caffael tiroedd eraill i gynyddu maint Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (prosiect a ariennir gan yr incwm o bren).
- Prosiect dathlu canmlwyddiant (i gofio 100 mlynedd o goedwigaeth Brydeinig a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf). Nodwyd bod CNC yn cynnal ymarfer cwmpasu ar gyfer y prosiect, ac yn amodol ar gymeradwyaeth fewnol, rhagwelir y bydd manylion y fenter yn cael eu lansio yn ystod yr haf.
- Plant! Nodwyd bod rhagor o ymdrech yn cael ei wneud i blannu coed ychwanegol o dan y cynllun hwn (y nod yw plannu coeden am bob unigolyn a anwyd neu a fabwysiadwyd yng Nghymru oddi ar 1 Ionawr 2008).
- Rôl ddilysu ar gyfer Creu Coetir Glastir a chynlluniau adfer Planhigfa ar Safle Coetir Hynafol (PAWS) (ar ran cymorth technegol Glastir LIC/RDP).

31. Dywedwyd bod dwy ffenestr mynegi diddordeb (Eol) newydd ar gael i wneud cais am grantiau creu coetir. Nodwyd bod CNC yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau plannu newydd. Ychwanegwyd bod coetiroedd hynafol hefyd yn cael eu hadfer. Argymhellwyd y dylid buddsoddi mewn addysg a choedwigaeth.

32. Mynegwyd pryderon am y diffyg hyfforddiant ar gyfer staff coedwigaeth yn CNC. Dywedwyd bod gan CNC raglen hyfforddi ar gyfer staff coedwigaeth a bod nifer o staff

newydd, sydd bellach yn gweithio yn y timau coedwigaeth, wedi cael eu hannog i ymgeisio am statws coedwigwr siartredig (a'u bod wedi bod yn llwyddiannus).

33. Trafododd y grŵp y rhwystrau a oedd yn atal y gwaith o greu rhagor o goetiroedd. Roedd yna bryderon penodol ynghylch y costau adfer a'r diffyg cymorth a buddsoddiad. Nodwyd bod yna oedi gan nad oedd ceisiadau i greu coetiroedd newydd yn cael eu prosesu'n ddigon cyflym. Awgrymwyd y dylid llunio cynllun drafft yn cynnwys y costau, er mwyn ei gyflwyno i LIC fel ateb posibl. Gofynnodd Confor am gymorth gan CNC i archwilio beth yw'r rhwystrau i greu coetiroedd newydd fel eu bod mewn gwell sefyllfa i fynd at y Gweinidog ynghylch y mater hwn.
34. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i fuddsoddi cyllid ychwanegol mewn cytundebau Adran 16, er mwyn annog y perchnogion tir hynny sydd â safleoedd arbennig (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) i ymgymryd â rheolaeth yn well.
35. Mynegodd NFU Cymru bryderon ynghylch cynigion LIC i blannu rhagor o goed yng Nghymru ac a fyddai angen gwerthu tiroedd amaethyddol i alluogi coedwigo. Nodwyd nad gorfodi ffermwyr i blannu coed oedd y bwriad, ond yn hytrach eu helpu i weld y budd a'r gwerth o blannu coed. Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau bod y plannu yn cael ei wneud yn y lle iawn.

PG12: Archwilio ymhellach beth yw'r pryderon o ran hyfforddiant staff coedwigaeth CNC (Martyn Evans, CNC/Anthony Geddes, Confor)

PG13: Rhannu polisi diwygiedig CNC mewn perthynas ag addysg a choedwigaeth â'r aelodau (Bob Vaughan, CNC)

PG14: Rhoi ffeil achos o gynlluniau aflwyddiannus Creu Coetir Glastir i Bob Vaughan, CNC (Anthony Geddes, Confor)

PG15: CNC i gysylltu â Confor ynghylch y rhwystrau i greu coetiroedd (Bob Vaughan, CNC/Anthony Geddes, Confor)

PG16: Llunio cynllun cydlynol ar greu coetiroedd, a hynny ar y cyd â grŵp o aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru, er mwyn ei gyflwyno i LIC (Chris Blake, CNC/Bob Vaughan, CNC)

Eitem 9 Unrhyw Fater Arall

36. Nodwyd bod Geraint Davies bellach yn aelod o fwrdd CNC a'i fod yn ffermwr gweithredol.

PG17: Siarad â chadeirydd CNC a gofyn a all Geraint Davies fynychu cyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol (Zoe Henderson, CNC)

37. Dywedwyd y byddai CNC yn penodi Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygiad Corfforaethol, a oedd yn meddu ar rôl uwch yn Llywodraeth Cymru tan yn ddiweddar.

38. Nodwyd yr hoffai'r aelodau wybod safbwynt CNC ar blastigau fferm.

PG18: Rhannu safbwynt CNC ar blastigau fferm â holl aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Bob Vaughan, CNC)

39. Gofynnwyd i NFU Cymru roi sylwadau ar ymgynghoriad Cyflwr Adar yr RSPB. Nodwyd bod angen eglurder ynghylch a yw CNC yn bartner a bod angen sicrhau dull 'heb droeon annisgwyl'.

PG19: Egluro a yw CNC yn bartner allweddol yn ymgynghoriad Cyflwr Adar yr RSPB (Bob Vaughan, CNC)

PG20: Nodi dyddiadau addas ar gyfer tri chyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider, CNC)

Diwedd y Cyfarfod